

Bwrdd Caffael

Hysbysiad

Yng nghyfarfod y Bwrdd Caffael ar 24 Mehefin 2015, eitemau allweddol a drafodwyd oedd ymatebion y sector i fersiwn ddiwygiedig Datganiad Polisi Caffael Cymru, achos busnes ar gyfer olynnydd i Brosiect Defnyddio Doniau Cymru i Wella'r Byd Caffael, a'r diweddaraf am y Gwasanaeth e-Gaffael.

- Roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) wythnos yn gynt na'r disgwyl ar 9 Mehefin. Roeddem yn aros am ymatebion gan ddau sector o hyd, ond dangosodd yr ymatebion a gafwyd fod sectorau'n cefnogi'r egwyddorion a'u bod wedi gwneud sylwadau am bob un. Adleisiwyd adborth dechreuol y sectorau gan aelodau'r Bwrdd, sef goblygiadau'r mesurau ar gyfer sefydliadau llai a'r galw ar eu hamser o ganlyniad. Pan oedd cynrychiolwyr sectorau wedi cwrdd â'r Gweinidog, nodasant eu pryderon, sefyllfa'r sectorau o ran cyflawni a pha feysydd polisi a fyddai'n flaenoriaeth iddynt. Cryfhau'r meysydd hynny lle y mae angen yw'r bwriad, ac nid rheoleiddio ar draws y WPPS cyfan.
- Cyflwynwyd y dangosfwrdd ar ei newydd wedd i'r Bwrdd. Bydd yn mesur i ba raddau y mabwysiadwyd egwyddorion y WPPS, a bydd gwybodaeth nad oedd ar gael yn flaenorol yn cael ei chynnwys er mwyn rhoi cyd-destun i adroddiadau yn y dyfodol. Cyflwynir fersiwn derfynol y dangosfwrdd i'r Bwrdd ym mis Medi i gael ei chadarnhau.
- O ran eFasnachu Cymru, trefnwyd cyfarfodydd gyda phob Awdurdod Lleol bellach ac mae nifer o sefydliadau newydd wedi mynegi y hoffent gymryd rhan. Un maes pwysig yn y rhaglen yw lansio'r Cyfeiriadur Contractau, a bydd ar gael ar ddiwedd y mis ar gyfer sefydliadau presennol a'r mis nesaf ar gyfer pob sefydliad newydd. Mae trefniadau contractio ar gyfer y dyfodol gyda Bravo Solutions yn cael eu cwblhau a rhoddir gwybod amdanynt trwy Gwerth Cymru cyn bo hir.
- Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd yn rhoi crynodeb o adolygiadau'r Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael (PFC) ar gyfer y sector Addysg Uwch. Byddai Gwerth Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Cyfarwyddwyr Cyllid ddydd Gwener a'r gobaith yw y byddent yn cael caniatâd bryd hynny i gyhoeddi'r adroddiadau. Roedd y contract wedi'i gwblhau gyda'r ddau ddarparwr cyntaf a'r bwriad oedd siarad ag ymarferwyr cyn y gyfres nesaf o Wiriadau Ffitrwydd. Bydd Gwerth Cymru'n gweithio gyda'r sector Addysg Bellach er mwyn cynnal gwiriadau ar gyfer colegau penodol. Roedd y model aeddfedrwydd wedi cael ei gadarnhau gan Fwrdd Cyflawni'r Gwasanaeth e-Gaffael a byddai'n cael ei gynnwys yn y gyfres nesaf o Wiriadau Ffitrwydd. Byddai'r gyfres newydd o wiriadau'n cael ei rheoli fel prosiect ar wahân â'i Gylch Gwaith ei hun.
- Roedd fersiwn ddrafft yr achos busnes ar gyfer olynnydd i Brosiect Defnyddio Doniau Cymru i Wella'r Byd Caffael wedi cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel y gall wneud sylwadau. Daeth y prosiect i ben ar 30 Mehefin ac roedd trafodaethau ar y gweill gyda WEFO ynglŷn â datblygu sgiliau a gallu yng Nghymru. Roedd sylwadau a wnaed yn y Bwrdd ym mis Ebrill wedi cael eu hystyried a byddai pedair prif thema'n cael eu datblygu, o blith saith dewis dechreuol: Gweithwyr proffesiynol cymwys; Uwchsgilio staff mewn meysydd datganoledig; E-fasnachu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig; a Chynllun cyfnewid ac interniaethau.
- Byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn recriwtio ar gyfer tair swydd wag - Pennaeth Bwyd, Pennaeth Gwasanaethau Pobl a Chyfathrebu a Phennaeth Fflyd a Thrafnidiaeth. Byddant yn cael eu hysbysebu cyn bo hir.
- Tynnodd Nick Sullivan sylw'r Bwrdd at y ffaith nad oes fforwm ymarferwyr ar gyfer datblygu polisi wedi bod ar waith am sbel ac awgrymodd mai dyma'r adeg i ddechrau grŵp o'r fath, o ystyried y Pwerau Dynodedig a'r ffaith bod fersiwn ddiwygiedig y WPPS wedi'i

chyhoeddi. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y fforwm anfon e-bost at Nick.Sullivan@wales.gsi.gov.uk.

- Croesawodd y Bwrdd gynrychiolydd newydd y Sector Addysg Bellach sef David Evans, Cyfarwyddwr Cyllid Coleg Sir Benfro, a nodwyd diolchiadau i'r cynrychiolydd sy'n gadael, Mark Jones.
- Yn ogystal, cafodd Umar Hussain ei longyfarch am gael ei gydnabod yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines a derbyn MBE.

Cyfarfod nesaf: 16 Medi 2015: 2pm – 4pm